# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Gorffennaf 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd);<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies; Richard Dew; Jim Evans; C. McGregor, K. P. Hughes, Eric Roberts; Hefin Thomas;<br><br>Safle 1 yn unig – Cynghorydd W. I. Hughes,<br>Safle 2 yn unig – Cynghorydd Keith Evans; |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd R.L.Owen |

---

Draft

**1. 14C42J - Cais llawn i godi adeilad trin dŵr, twchu llaid, tanc dal, adeiladu ffordd fynedfa i'r safle, codi ffens diogelwch a thirlunio cysylltiol yn Gwaith Trin Dwr Cefni, Bodffordd.**

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu gyfle i'r Aelodau weld y cynllun lleoliad a drychiadau'r adeiladau arfaethedig, a'r tanc dal llaid.

Nodwyd hefyd leoliad y 4 eiddo preswyl wrth y fynedfa.

Cyfeiriodd at y gwaith sgrinio arfaethedig, ac at ffordd oedd yn rhoi mynedfa i bysgotwyr, a hefyd at ffens 2.7m o uchder fyddai'n cael ei chodi ar y rhan fel rhan o'r gwaith gwella ar y safle.

Dangoswyd hefyd leoliad yr iard adeiladu arfaethedig ond nid oedd hyn yn rhan o'r cais cynllunio.

Gofynnodd yr Aelodau am i'r materion canlynol gael sylw yn y Pwyllgor:-

- Gwybodaeth ynglŷn â pheryglon posibl o'r gwaith prosesu carbon;
- Niwsans posibl oherwydd sŵn;
- Bod cyfosodiad yn dangos uchder y tai presennol a'r adeilad arfaethedig yn cael ei ddangos yn y cyfarfod o'r Pwyllgor;

**2. 39C291A/1 – Codi bloc o fflatiau yn cynnwys 6, 2 ystafell wely ar dir yn Menai Quays, Stryd y Paced, Porthaethwy.**

Dangosodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu y cynlluniau ar gyfer y cynnig gan roi'r cefndir i'r safle, sef:

- Arferai'r safle cais gael ei ddefnyddio fel iard goed a hynny ar ddwy ochr y stryd. Roedd yr ochr orllewinol bellach wedi cael ei datblygu i bwrpasau preswyl.

- Roedd caniatâd cynllunio wedi cael ei roi yn flaenorol i ddau bâr o anheddau tri llawr a phâr o anheddau deulawr.

- Cafodd y cais ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod y cais yn cynnwys gwiriad ac wedi ei ddyrannu fel safle ar gyfer cyflogaeth yng Nghynllun Lleol Ynys Môn.

- Roedd caniatâd cynllunio wedi cael ei roi yn flaenorol i ddau bâr o anheddau tri llawr a dau bâr o anheddau deulawr.

- Mae'r safle ger Warws John Edwards sy'n adeilad rhestredig a Gwesty'r Fictoria ac y mae o fewn yr ardal gadwraeth ddynodedig.

Ymwelwyd â'r safle o gyfeiriad Stryd Paced ac o gefn Gwesty'r Fictoria.

Dangoswyd cyfosodiadau'n dangos golygfeydd i mewn ac allan o'r Gwesty.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â lleoliad y fflatiau a'r darpariaethau parcio.

Gofynnodd yr Aelodau am i'r cyfosodiadau fod ar gael yn y Pwyllgor Cynllunio

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**

**CADEIRYDD**

Drafft